

CYFARFOD	Cabinet Cyngor Gwynedd
DYDDIAD	24 Ionawr 2023
AELOD CABINET	Cynghorydd Beca Brown
SWYDDOG	Gwern ap Rhisiart
TEITL YR EITEM	A) Adroddiad ymgynghoriad statudol Ysgol Chwilog B) Cyflwyno achos fusnes i Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cyllid o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg

A) ADRODDIAD YMGYNGHORIAD STATUDOL YSGOL CHWILOG

1. Y Penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ar gynyddu capasiti Ysgol Chwilog ynghyd â'r ymatebion i'r sylwadau hynny, a phenderfynu os dylid:

Cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu, yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig i ehangu safle'r ysgol a fyddai'n cynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95 o 1 Medi 2023, sef cynnydd o dros 25% o'r capasiti presennol.

(Nid oes angen dilyn drefn statudol mewn perthynas â'r bwriad i ehangu safleoedd Ysgol Llanllechid ac Ysgol Bro Llew gan na fydd hynny'n cynyddu capasiti'r ysgolion yn ddigonol.)

2. Cyflwyniad

Yn ystod Tymor yr Haf 2021 bu i gyrff llywodraethol 3 ysgol a'u haelodau lleol gysylltu efo'r Adran Addysg yn pryderu am ddiffyg capasiti'r ysgolion hynny i gyfarch y cynnydd mewn niferoedd dysgwyr yn sgil datblygiadau tai o fewn eu dalgylchoedd naturiol, sef Ysgol Llanllechid, Ysgol Bro Llew ac Ysgol Chwilog.

Gwelwyd cyfle i gyflwyno cais am Grant Cyfalaf y Gymraeg, Llywodraeth Cymru i geisio ymateb i sefyllfaoedd yr ysgolion hyn, gan becynnu'r cais o amgylch cymunedau o arwyddocâd ieithyddol (cymunedau dros 70% o siaradwyr Cymraeg).

Drwy gyfrwng y cais hwn, mae'r Adran Addysg yn awyddus i gefnogi datblygiadau economaidd, tai a mentrau cymdeithasol mewn rhai cymunedau o arwyddocâd ieithyddol yn y sir, drwy gynyddu capasiti'r ysgolion mewn ymateb i'r twf yn y boblogaeth yn sgil y datblygiadau hyn. O blethu'r holl elfennau adfywio cymunedol hyn yn gelfydd ynghyd, gall greu seilwaith gadarn ar gyfer y cymunedau hyn, gan greu'r amodau gorau un i'r iaith Gymraeg a ffyniant y cymunedau.

Yn ei gyfarfod ar 19 Gorffennaf 2022 bu i'r Cabinet gymeradwyo cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95, sef cynnydd o dros 25% o'r capasiti presennol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gan adrodd yn ôl i'r Cabinet yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad.

Bu iddynt hefyd gymeradwyo i symud ymlaen i gyflwyno achos fusnes llawn gerbron Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r cyllid o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg ar gyfer buddsoddi dros £1.5m cyfalaf a £0.3m referniw i gynyddu capasiti 3 ysgol (Llanllechid, Bro Llew a Chwilog) er mwyn

cefnogi cymunedau Cymraeg o arwyddocâd ieithyddol (h.y. cymunedau gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg) i ffynnu.

3. Yr angen am benderfyniad

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod rhaid cynnal proses statudol os yn *'ehangu safle ysgol (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig), a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion, o gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol. Wrth benderfynu ar gynnydd mewn capasiti, rhaid ystyried pob achos o ehangu ysgol sydd wedi digwydd ers y dyddiad priodol ynghyd â'r gwaith ehangu arfaethedig.'*

Bydd ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog yn cynyddu'r capasiti i 95, sydd yn gynnydd o dros 25% o'r 65 presennol, sef capasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol yn yr achos yma. Golyga hyn yr angen i gynnal proses statudol cyn gallu gwneud unrhyw addasiadau fyddai'n arwain at gynyddu capasiti'r ysgol. Cam cyntaf y broses statudol oedd cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig.

Mae angen i'r Cabinet, felly, ystyried yr ymatebion dderbyniwyd i'r ymgynghoriad statudol a phenderfynu os dylid cyhoeddi rhybudd statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95 o 1 Medi 2023.

4. Yr ymgynghoriad statudol

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion statudol y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 19 Hydref 2022 a 13:00 o'r gloch ar 30 Tachwedd 2022.

Lluniwyd dogfen ymgynghori statudol yn unol â gofynion ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) a dosbarthwyd copi o'r ddogfen i'r holl ymgynghorai perthnasol, drwy anfon e-bost a oedd yn cynnwys linc at dudalen arbennig ar wefan y Cyngor oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol i'r ymgynghoriad (www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg) Yn ogystal cynigwyd i anfon copïau caled o unrhyw ddogfennau ar gais gan ymgynghorai.

Anfonwyd copïau electroneg o'r ddogfen ymgynghori at Ysgol Chwilog, fel yr ysgol yr oedd y cynnig yn effeithio arni, gan wneud cais i'r Pennaeth ei dosbarthu i rieni/gwarchodwyr, staff ac aelodau corff llywodraethwyr yr ysgol.

Anfonwyd copïau electroneg o'r ddogfen ymgynghori i ysgolion cyfagos, sef Ysgol Abererch, Ysgol Bro Plenydd, Ysgol Llangybi ac Ysgol Llanystumdwy, gan wneud cais i'r Pennaeth eu dosbarthu i rieni/gwarchodwyr, staff ac aelodau cyrff llywodraethwyr yr ysgolion.

Cyhoeddwyd pecyn cefndirol yn ogystal, a oedd yn cynnwys asesiadau effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg, y gymuned, cydraddoldeb, economaidd-gymdeithasol, llesiant, yn ogystal ag asesiadau ar effaith tebygol y cynnig ar drefniadau teithio, ansawdd a safonau addysg. Roedd y dogfennau ar gael i'w lawr lwytho oddi ar wefan y Cyngor.

Yn ogystal, crëwyd dogfen ymgynghorol i blant cynradd gyda holiaduron cysylltiedig. Bu i swyddog o'r Tîm Moderneiddio a Phennaeth Ysgol Chwilog gynnal sesiwn ymgynghori gyda chynrychiolaeth o ddysgwyr Ysgol Chwilog er mwyn canfod barn y dysgwyr. Mae dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau wedi ei gynnwys yn **Atodiad B**.

Derbyniwyd 18 ymateb i'r ymgynghoriad statudol, gan gynnwys ymateb gan Estyn ar ffurf adroddiad. Dengys y tabl isod ffurf a chyfrwng iaith yr ymatebion i'r ymgynghoriad:

Ffurf ymateb	Cymraeg	Saesneg	Dwyieithog	Cyfanswm
Ffurflen ymateb	14	1	0	15
E-bost	2	0	0	2
Llythyr	0	0	0	0
Adroddiad	0	0	1	1

5. Sylwadau dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol

Pwrpas yr adran hon yw cyflwyno a chrynhoi rhai o'r prif faterion a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Nid oes posib ymateb i bob sylwad yn fanwl yng nghorff yr adroddiad hwn, fodd bynnag, ynghlwm (**Atodiad A**) ceir copi o dabl sy'n cynnwys yr holl sylwadau yn ogystal ag ymateb y Cyngor iddynt. Gellir gweld copïau o'r ymatebion unigol yn **Atodiad C**. Mae'r wybodaeth bersonol ar yr ymatebion wedi eu tynnu oddi arnynt er mwyn cydymffurfio â gofynion yr ymgynghorai yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 2008 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn manylu ar y materion a ganlyn:

5.1 Cefnogaeth i'r cynnig

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn dangos cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig.

5.2 Niferoedd plant

Roedd rhai sylwadau yn gofyn os oedd cynyddu niferoedd yr ysgol i 95 + 13 meithrin yn ddigonol gan ystyried fod y rhagamcanion niferoedd yn 109 (meithrin – blwyddyn 6) yn 2027.

Mae'r rhagamcanion yn seiliedig ar wybodaeth rydym wedi ei dderbyn gan yr ysgol ym Medi 2022 ac amcan o unrhyw blant oed cynradd newydd posib fydd yn byw yn y tai newydd yn dilyn eu adeiladu. Mae rhaid nodi hefyd fod y rhagamcanion o 109 o ddysgwyr ar gyfer Medi 2027 ar gyfer plant meithrin – blwyddyn 6. Rydym felly o'r farn fod cynyddu capasiti i 95 (derbyn – blwyddyn 6) + 13 meithrin, sef 108 o ddisgyblion, yn synhwyrol i ymateb i'r rhagamcanion gan nad oes unrhyw sicrwydd y bydd y niferoedd hyn yn cael eu gwireddu. Serch hynny, byddwn yn monitro unrhyw gynnydd yn flynyddol ac yn ymateb yn brydlon i unrhyw angen i gynyddu'r capasiti ymhellach.

5.3 Effaith ar drafnidiaeth

Roedd rhai sylwadau yn nodi pryder am effaith y cynnydd yn niferoedd dysgwyr ar nifer y ceir fyddai'n cludo'r plant i'r ysgol.

Gan fod y stadau tai newydd, sef prif yrrwr yr angen am lefydd ychwanegol yn Ysgol Chwilog, wedi eu lleoli o fewn pellter rhesymol i'r ysgol, a bod llwybrau troed neu palmentydd rhwng y stadau a'r ysgol, yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru, byddwn yn annog dysgwyr i ddefnyddio teithio llesol i'r ysgol e.e. cerdded a beicio. Byddai gwneud hyn yn sicrhau na fyddai cynnydd yn niferoedd dysgwyr yn arwain at gynnydd yn nefnydd ceir i'r ysgol.

Byddwn hefyd yn comisiynu arolwg er mwyn deall y problemau a grëir o ganlyniad i ddefnyddio ceir i gludo plant i'r ysgol gan adnabod ac asesu unrhyw ffyrdd i oresgyn y problemau.

5.4 Addasrwydd yr ysgol

Roedd sylwadau am addasrwydd yr ysgol i ddelio â chynnydd yn niferoedd dysgwyr.

Mae swyddogion o'r Adrannau Addysg ac Eiddo wedi ymweld ag Ysgol Chwilog i gynnal asesiad addasrwydd er mwyn adnabod unrhyw addasiadau sydd angen eu gwneud i sicrhau amgylchedd addas a digonol ar gyfer anghenion yr ysgol.

O ganlyniad, gallwn gadarnhau y byddwn yn ymateb i'r angen i addasu adnoddau drwy unai eu lleoli fel rhan o'r Uned newydd neu drwy wneud addasiadau i'r prif adeilad e.e. gwneud y neuadd yn fwy.

5.5 Opsiynau amgen

Roedd rhai sylwadau yn gofyn pam nad oeddem yn creu ysgol newydd neu estyniad traddodiadol i'r adeilad presennol yn hytrach na gosod Uned ar y safle.

Er mwyn ymateb i sefyllfa brys am lefydd ychwanegol yn Ysgol Chwilog rydym yn anelu i greu'r dosbarth ychwanegol erbyn 1 Medi 2023. Byddai creu ysgol newydd, neu hyd yn oed estyniad ar gyfer y dosbarth ac adnoddau ychwanegol eraill megis toiledau ac ystafelloedd eraill aml-bwrpas yn cymryd dipyn mwy o amser i'w gwireddu. Mae'n fwriad defnyddio Unedau MMC (Modern Methods of Construction) gan fod eu cyfnod adeiladu ar safle yn llawer byrrach nag adeilad o wneuthuriad traddodiadol er bod ganddynt oes o hyd at 60 mlynedd. Mae'r math yma o Unedau eisoes wedi eu defnyddio mewn ysgolion eraill yn y sir ac yn profi i fod yn ddosbarthiadau effeithiol a phoblogaidd.

5.6 Ymateb Estyn

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fel corff yr ymgynghorir ag ef, mae Estyn yn rhoi eu barn ar yr ymgynghoriad.

Mynegodd Estyn yn ei grynoded:

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau cyfredol o leiaf o ran addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

5.7 Ymateb plant

Paratowyd dogfennau addas ar gyfer plant oed cynradd a threfnwyd fod Pennaeth yr ysgol yn hwyluso sesiwn gyda cynrychiolaeth o blant yr ysgol i dderbyn eu hymateb i'r cynnig. Yn ogystal â'r Pennaeth, roedd Swyddog Moderneiddio Addysg hefyd yn bresennol i arsylwi'r sesiwn.

Amlygodd y sesiwn ymgynghori fod dysgwyr Ysgol Chwilog yn hapus iawn gyda'r cynnig ac roedd yn glir eu bod o'r farn y byddai hyn yn rywbeth da i Ysgol Chwilog.

Roedd rhai yn bryderus fod y neuadd a'r coridor am fod yn rhy fach i holl ddysgwyr yr ysgol, ond roeddent serch hynny yn croesawu y cynnig.

Derbyniwyd un ymateb arall gan blentyn drwy e-bost. Roedd yr ymateb yma hefyd yn cefnogi'r cynnig.

6. Asesiadau effaith y newid

Cwblhawyd nifer o asesiadau effaith cyn cychwyn ar y drefn ymgynghori statudol a gofynnwyd i'r ymgynghorai am unrhyw sylwadau ar yr asesiadau rheiny. Mae rhai o'r asesiadau wedi eu haddasu yn dilyn derbyn sylwadau i'r ymgynghoriad (gweler **Atodiad CH**)

Gellir gweld isod y prif sylwadau a dderbyniwyd.

6.1 Asesu'r effaith ar nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Roedd un sylw yn nodi bod rhai o'r plant yn cyrraedd yr ysgol, gyda Chymraeg annigonol i allu ymdoddi i fewn i lif naturiol yr ysgol. Oes felly angen dosbarth arall er mwyn gwella Cymraeg y plant hyn fel nad yw eu diffygion hwy yn cael effaith negyddol ar ddosbarthiadau y rhai sy'n meddu'r Gymraeg?

Mae gan yr Adran Addysg Ganolfannau laith wedi eu lleoli ar draws y Sir, gan gynnwys un yn Nwyfor, sy'n derbyn hwyrdyfiaid sy'n cyrraedd ysgolion lleol fel Ysgol Chwilog, ac mae Penaethiaid ac

athrawon ysgolion prif lif y dalgylch yn gallu cyfeirio dysgwyr sydd heb y Gymraeg neu yn ddi-hyder eu sgiliau siarad, ysgrifennu a gwranddo y Gymraeg i sylw'r Gyfundrefn Addysg Drochi. Yn ddiweddar, mae staff y Gyfundrefn Addysg Drochi hefyd wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddiant ar egwyddorion trochi iaith yn y Cyfnod Sylfaen i athrawon a chymorthyddion ysgolion ledled y sir, er sicrhau bod trochi priodol yn digwydd yn y Cyfnod Sylfaen. At hyn, mae gan y Canolfannau Iaith draddodiad hir o ddarparu cynhaliaeth Gloywi Iaith i ddysgwyr prif lif sydd angen hw b ychwanegol efo'u sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg. Gan fod y Gyfundrefn Drochi newydd wedi dod yn weithredol ers dechrau Ionawr 2023, bydd yr Adran yn sicrhau parhad o'r arfer yma o allu cynnig sesiynau gloywi iaith i blant a phobl ifanc yn ein hysgolion, er mwyn atgyfnerthu eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg ymhellach.

Felly mae'r gwasanaeth yma ar gael i gynnig cymorth i'r plant hynny sydd angen gwella eu Cymraeg, ac i ysgolion sydd angen cymorth gyda throchi dysgwyr yn y prif lif.

Gofynnodd un arall os yw hi'n amser i ddynodi'r ysgol yn Ysgol Gymraeg, er mwyn gwarchod buddiannau?

Mae'r drefn genedlaethol o gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi dod i rym ers Medi 2022. Yn unol â chanllaw Llywodraeth Cymru ar y drefn gategoreiddio, ynghyd â gofynion Polisi Iaith Addysg Gwynedd, mae ysgolion cynradd Gwynedd, gan gynnwys Ysgol Chwilog, yn disgyn i Categori 3 Cyfrwng Cymraeg, gan fod y meini prawf yn adlewyrchu ein polisi iaith addysg presennol o ran darpariaeth cwricwlwm ac iaith weinyddol ein hysgolion, sef ysgol ble'r Gymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol, ac ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. O saith oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

6.2 Asesu Effaith Llesiant

Derbyniwyd sylwadau yn gofyn am addasiadau fydda'n gwella llesiant staff a disgyblion i'r dyfodol e.e. stafell staff, toiledau gwell, gofod bwyta cinio mwy.

Mae swyddogion o'r Adrannau Addysg ac Eiddo wedi ymweld ag Ysgol Chwilog i gynnal asesiad addasrwydd er mwyn adnabod unrhyw addasiadau sydd angen eu gwneud i sicrhau amgylchedd addas a digonol ar gyfer anghenion yr ysgol.

O ganlyniad, gallwn gadarnhau y byddwn yn ymateb i'r angen i addasu adnoddau drwy unai eu lleoli fel rhan o'r Uned newydd neu drwy gynnal addasiadau i'r prif adeilad.

6.3 Asesiad effaith ar y Gymuned, Ansawdd a safonau Addysg a Threfniadau Teithio

Roedd rhai sylwadau yn poeni am effaith y cynnydd yn niferoedd disgyblion ar nifer y ceir fyddai'n cludo'r plant i'r ysgol.

Gan fod y stadau tai newydd, sef prif yrrwr yr angen am lefydd ychwanegol yn Ysgol Chwilog, wedi eu lleoli o fewn pellter rhesymol i'r ysgol, a bod llwybrau troed a palmentydd rhwng y stadau a'r ysgol, yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru, byddwn yn annog dysgwyr i ddefnyddio teithio llesol i'r ysgol e.e. cerdded a beicio. Byddai gwneud hyn yn sicrhau na fyddai cynnydd yn niferoedd dysgwyr yn arwain at gynnydd yn nefnydd ceir i'r ysgol.

Byddwn hefyd yn comisiynu arolwg er mwyn deall y problemau a grëir o ganlyniad i ddefnyddio ceir i gludo plant i'r ysgol gan adnabod ac asesu unrhyw ffyrdd i oresgyn y problemau.

Nododd un arall fod ambell ystafell ddosbarth ar hyn o bryd yn rhy fach

Ni fyddwn yn gallu addasu maint unrhyw ddosbarth sy'n bodoli'n barod gan y byddai gwneud hynny'n golygu newidiadau strwythurol fyddai tu hwnt i gyllideb y prosiect.

B) CYFLWYNO ACHOS FUSNES I LLYWODRAETH CYMRU ER MWYN SICRHAU CYLLID O'R GRANT CYFALAF ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG

Bu inni ddanfôn **Achos Cyfiawnhad Busnes** i Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau cyllid o **Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg** i gynyddu capasiti Ysgol Bro Lleu, Ysgol Chwilog ac Ysgol Llanllechid. Bu i Llywodraeth Cymru drafod yr achos fusnes ym Mhaneli Craffu a Buddsoddi Achosion Busnes mis Tachwedd a Rhagfyr.

Roedd y cais am £1,533,500 o gyllid cyfalaf ar gyfer creu dosbarthiadau ychwanegol yn y 3 ysgol yn ogystal a £341,874 o gyllid refeniw ar gyfer cyflogi athro ychwanegol ymhob un o'r 3 ysgol am gyfnod o 2 flynedd. Mae'r **Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg** yn golygu cyfraniad 100% gan Llywodraeth Cymru heb angen am unrhyw gyfraniad cyfatebol gan Cyngor Gwynedd.

Rydym dal i ddisgwyl cadarnhad swyddogol o'r penderfyniad, er bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi cefnogi'r cais mewn egwyddor yn haf 2022.

Bydd defnyddio'r unrhyw gyllid a dderbynnir ar gyfer addasu Ysgol Chwilog yn ddarostyngedig i ganlyniad y broses statudol.

CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95 o 1 Medi 2023 – bydd angen cyhoeddi rhybudd statudol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

Byddai'r rhybuddion statudol yn cael eu cyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o pan gyhoeddir y rhybuddion. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig.

Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. Rhaid cofio bod rhai sefyllfaoedd lle bydd penderfyniad terfynol y Cyngor yn gallu cael ei gyfeirio at y Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cymru yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

Yn ddarostyngedig i benderfyniadau'r Cabinet, dyma gamau nesaf y broses gydag amserlen amlinellol:

Chwefror 2023	Cyhoeddi Rhybudd Statudol: os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, cyhoeddir hysbysiad statudol ac fe gynhelir cyfnod gwrthwynebu. Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad o fewn y cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod.
Ebrill 2023	Y Cabinet: Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad gwrthwynebiadau a phenderfynu a ddylid cadarnhau'r cynnig ai peidio.

Mai 2023	<p>Cyfeirio'r penderfyniad i Weinidogion Cymru: Os mai'r penderfyniad fydd gweithredu'r cynnig a bod gwrthwynebiad wedi ei dderbyn yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, yna o dan adran 54 o Ddeddf 2013, o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y Cabinet, gall y cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru i'w benderfynu:</p> <p>Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno; Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni; Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion; Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion; Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni.</p>
Mai – Awst 2023	Creu dosbarth ychwanegol ar safle Ysgol Chwilog
Medi 2023	Gweithredu'r cynnig: Byddwn yn gweithredu'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog o 65 i 95
Chwefror 2023 – Mawrth 2026	<p>Creu gofod ychwanegol yn Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Llanllechid.</p> <p>Penodi a chyflogi athro ychwanegol ymhob un o'r 3 ysgol am gyfnod o 2 flynedd.</p>

9. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol wedi cael mewnbwn i'r adroddiad ac mae unrhyw sylwadau wedi eu hymgorffori.

Y Pennaeth Cyllid:

Nid oes gennyf sylwadau i'w cynnig o safbwynt ariannol yn glŷn â chanlyniad yr ymgynghoriad. Gallaf gadarnhau fod swyddogion perthnasol o'r Adran Gyllid wedi rhoi sylw i agweddau ariannol yr Achos Cyfiawnhad Busnes a gyflwynwyd i Llywodraeth Cymru yn ystod hydref 2022, ac rwyf wedi ei gymeradwyo bryd hynny yn fy rôl fel Swyddog Cyllid Statudol y Cyngor.

Barn yr Aelod Lleol (Cynghorydd Rhys Tudur):

Gobeithiaf fod yr addewidion a phosibiliadau sydd wedi eu rhoi a'u cynnig gan y Cyngor yn adran 4.1 o'u hymateb o'r adroddiad yn cael eu gwireddu. Dyma'r sylwadau a roddwyd gan y Cyngor:

- Creu dosbarth ychwanegol yn yr Uned newydd
- Creu toiledau plant ychwanegol yn yr Uned
- Creu toiledau staff newydd yn yr Uned
- Creu ystafell yn yr Uned ar gyfer gwaith CPA a gwaith 1:1
- Creu ystafell staff yn yr Uned
- Byddwn yn creu linc dan do o'r Uned i'r prif adeilad felly ni fydd angen i unrhyw un groesi'r iard i gyrraedd y prif adeilad.
- Byddwn yn ymestyn y ffreutur/neuadd er mwyn creu lle digonol ar gyfer y cynnydd i'r dyfodol.

Gobeithiaf hefyd y bydd y Cyngor yn ystyriol iawn o geisiadau pellach gan y Ysgol i addasu'r adeilad ymhellach yn y dyfodol petai'r galw am hynny a phetai nifer y plant yn cynyddu yn ôl y rhagolygon.